Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cofnodion y Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Dydd Mawrth 22 Mawrth 2016 am 10 o'r gloch y bore**
**Y Ganolfan Gydlynu Strategol, Pencadlys yr Heddlu**

**Presennol:** Mr Alasdair Kenwright )
Mr Gawain Evans )
Mr Malcolm MacDonald ) Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio
Mrs Ann Williams )

**Yn bresennol:**

Christopher Salmon – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)
Simon Prince – Prif Gwnstabl (PG)
Helen Morgan-Howard – Pennaeth Staff Dros Dro, SCHTh (PS)
Jayne Woods – Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)
Edwin Harries – Cyfarwyddwr Cyllid (CC)
Adrian Williams – Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)
John Herniman – Swyddog Ymgysylltu, Swyddfa Archwilio Cymru (JH)
Jason Garcia – Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru (JG)
Jonathan Maddocks – Rheolwr Cleientiaid TIAA (JM)
Sarah Welsby – Cyfrifydd yr Heddlu (Arsylwr)
Tony Joslin – AHEM (Arsylwr)
Mark Pickering - Arlingclose
Anne Williams – Swyddog Cymorth, SCHTh

Agorodd AMSK y cyfarfod.

Yn y cyfarfod diwethaf, cytunwyd i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru am gyngor ar fater gwrthdaro buddiannau posibl o ran Gawain Evans yn parhau fel Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio yn dilyn ei ddyrchafiad i rôl newydd o fewn Llywodraeth Cymru. Ceisiodd y PSA gyngor gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu yn Llywodraeth Cymru a sefydlodd nad oedd y perygl o wrthdaro posibl yn ddigon i orfodi Mr Evans i sefyll lawr fel cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio a bod y manteision yn fwy na'r peryglon. Ymgynghorwyd â'r holl aelodau a chofnodwyd yn ffurfiol bod Mr Gawain Evans yn cael ei gadarnhau fel Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio yn dilyn cyngor dyledus.

**Penderfyniad: Cadarnhau mai Mr Gawain Evans yw Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio.**

## A30 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Vicky Davies Pennaeth Archwilio TIAA.

## A31 Datganiadau o ddiddordeb

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

## A32 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2015

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## A33 Materion yn codi

Cytunwyd ar broses lle y bydd aelod dirprwyol o'r Cyd-bwyllgor Archwilio'n cael ei wahodd i gynrychioli'r Cadeirydd yn ei absenoldeb mewn cyfarfodydd o'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

**Cam gweithredu: Gweithredu proses o gynrychiolaeth mewn cyfarfodydd Grŵp Llywodraethu Corfforaethol cyn cyfarfod nesaf y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol sydd wedi'i drefnu ar gyfer 26 Mai 2016.**

## Materion i'w penderfynu

## A34 Ystyried Cynllun Archwilio drafft yr archwilydd allanol ar gyfer 2016/17, gan gynnwys y ffioedd archwilio cysylltiedig.

Cyfeiriodd JG at yr adroddiad. Gwybodaeth sylfaenol oedd y rhan fwyaf ohono. O dan yr adran ar beryglon archwilio datganiadau ariannol, cyfeiriodd JG at sut y gallai etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai effeithio ar gynhyrchu archwiliad o'r prif ddogfennau yn ystod y flwyddyn. Roedd gwaith gan gynrychiolwyr o'r pedwar heddlu yng Nghymru eisoes yn digwydd er mwyn adnabod gweithredoedd a reolir ar y cyd a oedd angen eu datgelu o dan y Cod Ymarfer Ariannol. Cynhaliwyd trafodaethau cynnar er mwyn cytuno ar gofnodion cyfrifo cywir yn natganiadau arianno 2015-16 ar gyfer terfynu menter ariannu breifat Gorsaf Heddlu Rhydaman.

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wedi gweld gostyngiad yn eu gwaith ar archwilio perfformiad gan fod AHEM wedi cymryd elfennau o gyfrifoldeb penodol ar gyfer y maes hwn drosodd.

Tynnodd JG sylw at Atodiad 2 o'r adroddiad a oedd yn gosod cwestiynau penodol sydd angen i roi barn archwilio ar drefniadau gwerth am arian. Roedd asesiad yn seiliedig ar fanylion a gasglwyd o waith yr Archwiliad Mewnol ac AHEM.

Roedd y ffi archwilio amcangyfrifol ar gyfer 2016 yn debyg i'r ffi a godwyd yn llythyr Archwilio blynyddol 2015-16.

Mewn perthynas â risg, holodd MM am briodoldeb a gwerth i aelodau o ran gweld y driniaeth cyfrifo'n cael ei ystyried yn y trafodyn caffael ased menter ariannu breifat. Cadarnhaodd JG bod SAC yn mynd i'r afael â chynnig gan yr Heddlu ar sut i gyfrifo'n gywir ar gyfer y trafodyn hwn ar hyn o bryd, a disgwylir canlyniad ymhell cyn cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Archwilio. Roedd MM yn hapus i'r data gael ei rannu ag aelodau pan fyddai ar gael.

**CAM GWEITHREDU: dosbarthu data sy'n ymwneud â chaffael ased menter ariannu breifat i'r Aelodau pan fydd ar gael.**

Gan werthfawrogi nad oedd y costau ar gyfer ffioedd archwilio wedi codi ar gyfer 2016, pwysleisiodd y CHTh bod ffioedd yng Nghymru'n uwch o gymharu â Lloegr, a phwysleisiodd yr awydd i weld costau'n cael eu lleihau.

Nododd SAC y cais hwn gan gyfeirio'n gryno at ddeddfwriaeth a gofynion yng Nghymru a strwythur ffioedd SAC wrth allanoli gwaith i wahanol gyrff.

Cyfeiriodd MM at anawsterau'r llynedd mewn perthynas â chynhyrchu'r cyfrifon a chwestiynodd pa un ai a oedd unrhyw drafodaethau wedi'u cynnal o ganlyniad i'r anawsterau hynny. Hefyd, cwestiynodd MM pa un ai a oedd unrhyw waith paratoadol wedi'i gyflawni o ran newidiadau o fewn y cyfrifon.

Cadarnhaodd JG bod staff o'r Heddlu wedi bod yn bresennol mewn gweithdy diweddar i drafod gwersi a ddysgwyd o archwiliad y llynedd; gan arwain at ddogfen targedau archwiliad cyflawnadwy ddyfeisiedig. Roedd cyfrifyddion o bob heddlu hefyd wedi mynychu sesiwn o gwmpas cydweithio a nodwyd sefyllfa dda mewn perthynas â gwaith parhaus.

Mewn perthynas â chau cyfrifon yn gynharach a chwblhau datganiad o gyfrifon drafft, pwysleisiodd y CC fod llawer o waith wedi'i gyflawni o fewn y tîm i bennu cyfrifoldeb i unigolion ar gyfer pob maes penodol.

Cwestiynodd y Cadeirydd ddyddiad targed ar gyfer llofnodi'r cyfrifon. Cadarnhaodd y CC mai 30 Mehefin yw'r dyddiad ar gyfer llofnodi'r cyfrifon drafft ac nad yw'r dyddiad ar gyfer yr archwiliad wedi newid. Fodd bynnag, byddai eleni'n brawf ar gyfer cau'n gynnar a byddai canlyniadau'n cael eu hadrodd maes o law.

Cadarnhaodd JG yr amserlen ar gyfer cau'n gynt ar gyfer pobl heddlu yng Nghymru gyda 2015/16 a 2016/17 wedi'u gosod ar gyfer gwelliannau cynyddol ac ymarfer llawn yn 2017/18.

Mewn perthynas â chau'r cyfrifon yn gynnar, cadarnhaodd JH drefniadau arfer da a gwaith SAC ar sail Cymru gyfan. Cytunodd JH mai ymagwedd gynyddol oedd y ffordd ymlaen, gan osgoi'r peryglon posibl o gyflwyno newidiadau dros flwyddyn.

**Penderfyniad: Cytunodd Aelodau o'r Cyd-bwyllgor Archwilio ar Gynllun Archwilio Drafft yr Archwilydd Allanol ar gyfer 2016/17, gan gynnwys y ffioedd archwilio cysylltiedig.**

**A35 Ystyried y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys**

Cyflwynodd y PSA yr adroddiad. Datganiad blynyddol yw'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DTRhT) a gyflwynir cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol. Roedd y

DTRhT yn bodloni gofynion y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a'r Cod Ymarfer ar gyfer Rheoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sy'n ofynnol yn ôl Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

Hysbysodd y PSA yr Aelodau bod Arlingclose, Ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys, wedi cynnal adolygiad o sefyllfa Dyfed-Powys; roedd copi drafft wedi'i gynnwys o dan Atodiad E yn yr adroddiad. Roedd copi terfynol o'r adolygiad ar gael, a oedd yn cynnwys un diwygiad mewn cyfeiriad at Lywodraeth Cymru a chanllawiau priodol yng Nghymru yn lle'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Roedd y canllawiau'n argymell bod Dyfed-Powys yn gweithredu'r cronfeydd cyfalaf i leihau'r gofyniad ariannu cyfalaf wrth fynd ymlaen, sy'n effeithio ar y ddarpariaeth refeniw lleiaf yn y cyfrifon pob blwyddyn.

Croesawodd y PSA Mr Mark Pickering o Arlingclose i roi cefnir o ran amgylchedd economaidd a'r egwyddorion cyffredinol a gynghorwyd i Ddyfed-Powys wrth osod y strategaeth.

Tynnodd y PSA sylw at adrannau penodol o fewn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan MM, rhoddodd Mr Pickering wybodaeth i'r Aelodau ynghylch y defnydd o sefydliadau tramor ar gyfer dyddodi cyllid.

Mewn perthynas â'r mater o ddarpariaeth refeniw lleiaf a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn i leihau'r gofyniad ariannu cyfalaf (GAC), nid oedd gan SAC unrhyw broblem â'r egwyddor gyffredinol, a bwriad SAC oedd ymateb yn ffurfiol ynghylch rhai agweddau penodol o hyn.

Cwestiynodd y CHTh Arlingclose pa un ai a oedd y mecanwaith ar y GAC yn cael ei ddefnyddio gan gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a Lloegr. Amlinellodd Mark Pickering beth oedd y GAC yn ei olygu.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â thalu dyledion yn gynnar a'r cosbau sy'n gysylltiedig â thalu'n gynnar. Cadarnhaodd y PSA bod adolygiad a gynhaliwyd ychydig flynyddoedd yn ôl wedi arwain at farn nad oedd talu dyledion yn gynnar yn economaidd ymarferol.

**Nododd aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2016/17.**

## A36 Ystyried y polisi cronfeydd wrth gefn

Roedd y polisi cronfeydd wrth gefn a mantolion wedi'i adolygu a'i ddiweddaru. Cynigiodd y PSA un newid yn benodol er mwyn darparu eglurder o ran y gallu i weithredu Cronfeydd Cyfalaf yn erbyn y GAC. Cynigiodd y PSA bod y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a Mantolion yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Archwilio pan fod newidiadau'n cael eu hargymell.

Cyfeiriodd JH at destun o dan Baragraff 9.2 o fewn yr adroddiad mewn perthynas ag argymhelliad Archwiliad Dosbarth. Yn dilyn trafodaeth gyda'r PSA, cytunodd yr Aelodau i gymryd allan y canran lleiaf a mwyaf a argymhellir gan gwestiynu'r ffigwr cyfradd canran cywir. Darparodd y PSA, ynghyd â SAC, eglurder pellach ar y sefyllfa yn Nyfed-Powys mewn perthynas â lefel y cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi a'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Archwilio'r Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a Mantolion diwygiedig ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu fel y barno'r Comisiynydd ei fod yn ofynnol gan ddibynnu ar ddileu testun o fewn Paragraff 9.2.**

**Y bydd y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a Mantolion ond yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Archwilio pan mae newidiadau'n cael eu hargymell. Mewn achosion lle nad oes newidiadau'n cael eu hargymell, cytunwyd y byddai eitem agenda i nodi bod y polisi wedi'i adolygu'n ddigonol a bod y penderfyniad hwn yn berthnasol ar gyfer pob Polisi sy'n cael ei adolygu'n flynyddol.**

**A37 Ystyried y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2016/17 i2019/20**

Roedd y Strategaeth Gyfalaf wedi'i adolygu ac mae'n gosod yr egwyddorion sy'n tanategu cynhyrchu blaenraglen gyfalaf Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'n nodi'r gwariant allweddol a fwriedir ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Tynnodd y PSA sylw at raglen ystadau benodol sydd ar waith, gyda digidoli gwasanaethau heddlu ymhellach a diweddaru technoleg isadeiledd cysylltiedig.

Cyfeiriodd y PSA at Atodiad A sy'n rhestri'r prosiectau sy'n ffurfio'r rhaglen gyfalaf dros y pedair blynedd nesaf. Rhestrir gwybodaeth bellach ynglŷn â'r prosiectau ystadau o dan Atodiad B a C. Amlinellodd y PSA y prosiectau penodol a'r rhaglenni gwaith sy'n cwmpasu dau linyn o'r gwaith ystadau dros y blynyddoedd nesaf. Roedd darpariaeth dalfa ar gyfer Sir Gaerfyrddin o dan Atodiad B. Roedd ffigurau o fewn Atodiad C yn cyfeirio at linynnau eraill o'r prosiectau gwaith ystadau a oedd yn cynnwys adnewyddu ystadau yn ôl sir.

Cyfeiriodd y CC at y rhaglen amnewid cerbydau ac arwyddocâd newid ceir ar yr adeg fwyaf economaidd mewn perthynas â threfniadau caffael a chostau. Roedd y rhaglen plismona digidol yn rhaglen uchelgeisiol a oedd yn adeiladu ar waith a gyflawnwyd ar Ddata Symudol o ran arbed amser ar gyfer swyddogion heddlu gweithredol. Yn dilyn y llwyddiant hwn, cyflwynwyd data symudol i SCCH. Arweiniodd treial llwyddiannus o ran camerâu fideo a wisgir ar y corff at gaffael yr elfen honno. Cyfeiriodd y CC at fanteision y rhaglen delemateg hefyd a rhaglen gyfathrebu symudol y gwasanaethau brys yr oedd yr Heddlu'n edrych ar weithredu dros y blynyddoedd i ddod.

Cwestiynodd MM gysylltiad gydag unrhyw brosiectau cenedlaethol arall heblaw airwave. Cadarnhaodd y CC nad oedd prosiectau eraill mewn perthynas â Gwariant Cyfalaf. Cyfeiriodd y CC at waith sy'n digwydd yn genedlaethol drwy gwmni TGCh yr Heddlu a chydweithio parhaus gyda heddluoedd eraill yng Nghymru a De Lloegr i edrych ar ddalfeydd ac unrhyw gyfleoedd eraill ar gyfer cydweithio.

Rhoddodd y PSA eglurhad mewn ymateb i gwestiwn gan JH ar yr elfen o berygl lle mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i dalu'r GAC a holodd ynghylch cyllid ychwanegol sydd ar gael.

**Nododd y Cyd-bwyllgor Archwilio'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2016/17 - 2019/20.**

## A38 Ystyried ail ddrafft o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol

Adolygir y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol (FfLlC) yn flynyddol i sicrhau bod y fframwaith yn addas ar gyfer y diben. O ganlyniad i gychwyn ail dymor Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym mis Mai a recriwtio Prif Gwnstabl newydd, ystyriodd y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol ei bod hi'n briodol cynnal adolygiad lefel uwch o'r fframwaith cyfredol cyn cychwyn 2016/17 a chynnal adolygiad mwy cynhwysfawr pan fydd Prif Gwnstabl newydd wedi dechrau ei swydd. Roedd hyn ar gyfer caniatáu i gyfuniad newydd o gorfforaethau unigol i drafod ac adlewyrchu yn y FfLlC y strwythurau llywodraethu maen nhw eisiau gweld mewn grym yn ystod eu cyfnodau.

Cyfeiriodd y PSA at y ddau newid arfaethedig i'r FfLlC ar gyfer 2016/17.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Archwilio'r ddau newid arfaethedig i'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol fel sydd wedi'i nodi yn y crynodeb gweithredol.**

**Action: Bod adolygiad cynhwysfawr o'r Fframwaith yn cael ei gyflawni'n gynnar yn ystod ail dymor Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ac ar ôl penodi Prif Gwnstabl newydd.**

## Materion ar gyfer Craffu

## A39 Ystyried y Siarter Archwilwyr Mewnol

Mae'r Siarter Archwilwyr Mewnol yn darparu dogfen ffurfiol sy'n diffinio diben gweithgarwch archwilio mewnol, ei awdurdod a'i gyfrifoldeb. Tynnodd JM sylw at agweddau allweddol o fewn y ddogfen.

Nodwyd camgymeriad teipio o fewn y Siarter lle cyfeiriwyd at y sefydliad fel 'Ymddiriedolaeth'.

**Cam gweithredu: Bod TIAA yn diwygio'r ddogfen i gynnwys y geiriad priodol.**

**Penderfyniad: Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Archwilio y Siarter Archwilwyr Mewnol yn amodol ar y diwygiad y cyfeiriwyd ato.**

**A40 Ystyried adroddiad cynnydd yr Archwilwyr Mewnol (SICA)**

Roedd saith archwiliad wedi'u cynnal a'u cwblhau ers cyfarfod blaenorol y Cyd-bwyllgor Archwilio.

Ni fu unrhyw newidiadau i Gynllun Blynyddol 2015/16 ar wahân i fân newidiadau i amserau hyd yn hyn. Oherwydd yr oedi o ran cwblhau'r Cynllun Parhad Busnes, roedd rheolwyr wedi gofyn am i'r adolygiad o Barhad Busnes a aildrefnwyd ar gyfer Chwarter 4 gael ei ohirio tan Chwarter 1 2016/17, a defnyddio'r amser ar gyfer adolygu trefniadau Recriwtio a Chadw. Disgwylir dau adroddiad ar drefniadau Cadw a Recriwtio a Phrydlesi. Roedd gwaith wedi'i gyflawni yn unol â'r cynllun o fewn yr amserlenni gofynnol.

Cyfeiriodd JM at gynnydd ar argymhelliad blaenoriaeth 1 mewn perthynas â chynllunio parhad busnes a dyddiad cwblhau diwygiedig, sef 31 Mawrth 2016, gyda phosibiliad y bydd rhywfaint o oedi.

Mewn ymateb i gwestiwn ar ddyddiad adolygiad olaf y Cynllun Trychinebau ac Adfer, cyfeiriodd y CC at ymarfer a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2013 gyda bwriad i brofi'r trefniadau sydd mewn grym ym mis Ebrill/Mai 2016.

**Nododd y Cyd-bwyllgor Archwilio adroddiad cynnydd yr Archwilwyr Mewnol.**

**A41 Ystyried adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol**

**a) Adolygiad Sicrwydd TGCh – defnydd o gyfryngau cymdeithasol**

Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau ar gyfer staff a defnydd corfforaethol o gyfryngau cymdeithasol. Rhoddodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol gyda dau argymhelliad blaenoriaeth 2. Derbyniwyd y ddau gan reolwyr. Darparwyd diweddariad ynghylch gweithredu'r argymhelliad.

**b) Adolygiad Sicrwydd o'r Cyd-uned Arfau Saethu**

Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau ar gyfer darparu trefniadau llywodraethu effeithiol yn y Cyd-uned Arfau Saethu. Rhoddodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol a thynnodd JM sylw at un argymhelliad blaenoriaeth 2 ar y gyllideb ar gyfer y Cyd-uned Arfau Saethu ar gyfer 2016-17 sydd i'w osod yn fwy manwl gywir mewn perthynas â gofynion cost gweithredol. Rhoddodd JM esboniad mewn perthynas â

phennu'r gyllideb yn gywir. Cadarnhaodd y CC elfen gyllideb Dyfed-Powys a'r broses monitro ariannol ar gyfer y Cyd-uned Arfau Saethu.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y CHTh, dywedodd JM fod yr un adolygiad wedi'i gynnal ym mhob un o'r tri heddlu ac esboniodd yn gryno sut oedd y gyllideb wedi'i phennu. Rhoddodd y CC eglurhad ynghylch y ffigwr tanwario ar y gyllideb a threfniadau ariannu y cytunwyd arnynt.

Wrth drafod yr adolygiad o asedau ac arfau, holodd y CHTh ynghylch oblygiadau cofnodi'r rhifau bôn yn hytrach na chofnodi'r rhifau cyfresol. Rhoddodd JM esboniad a dywedodd bod anghysondebau'n creu dryswch yn y logiau yn hytrach nag anawsterau, a sicrhaodd yr aelodau nad oedd unrhyw beth ar goll yn y broses.

Holodd MM pa un ai a oedd unrhyw drafodaethau wedi'u cynnal mewn perthynas â hwyrni o ran llif gwybodaeth ariannol o'r prosiectau ar y cyd wrth brosesu cyfrifon a dod â nhw i ben. Cadarnhaodd y PSA bod gweithdai wedi'u cynnal eleni er mwyn osgoi materion cylchol.

**c) Adolygiad Sicrwydd o Reoli Risg – Ymgorffori**

Roedd yr adolygiad yn ystyried trefniadau ar gyfer integreiddio rheoli risg i mewn i gynllunio busnes a'r fframwaith sicrwydd rheoliadau mewnol. Roedd yr adolygiad yn rhoi sicrwydd rhesymol o ran 5 argymhelliad blaenoriaeth 3 beunyddiol. Derbyniodd rheolwyr bob un ohonynt. Nid oedd meysydd pryder, felly holodd AMSK pam oedd yr adolygiad ond wedi derbyn sicrwydd rhesymol o ystyried mai dim ond argymhellion beunyddiol sydd wedi'u rhoi.

Cwestiynodd MM faes cydymffurfiaeth mewn perthynas â Chofrestri Risg wedi'u diweddaru'n cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Archwilio gan fod datblygiadau wedi digwydd ers y cyflwyniad diwethaf. Roedd Cofrestri Risg yn ffurfio rhan o eitem sefydlog ar agendau, fodd bynnag, nodwyd bod yr adolygiad diwethaf o Gofrestri Risg wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi 2015. Dywedodd MM y byddai'n ddefnyddiol pe bai Cofrestri Risg yn cael eu cyflwyno'r un pryd â'r rhaglen Archwilio Mewnol.

**CAM GWEITHREDU: Bod Cofrestri Risg wedi'u diweddaru'n cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Archwilio nesaf ar 21 Mehefin.**

**ch) Adolygiad Sicrwydd o Reolaeth Gyllidol**

Roedd yr adroddiad yn ystyried y broses o baratoi'r gyllideb, y trefniadau monitro, ac adrodd i'r bwrdd. Rhoddodd yr adolygiad sicrwydd sylweddol, ac roedd hi'n braf nodi parhad yn yr adran gyllid oherwydd roedd adolygiad y llynedd hefyd wedi rhoi sicrwydd sylweddol.

**d) Adolygiad Sicrwydd o Daliadau Cyfleustodau**

Roedd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer awdurdodi taliadau cyfleustodau a monitro defnydd. Rhoddodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol gydag un argymhelliad blaenoriaeth 2 mewn perthynas â chytundebau ar gyfer cyfleustodau'n cael eu canoli o ran y fframwaith cenedlaethol er mwyn sicrhau manteision ar gyfer yr heddlu. Cydnabu'r argymhelliad hwn a chadarnhaodd y CA bod gwaith wedi'i gwblhau a bod yr Heddlu wedi canoli rheoli cyfleustodau. Derbyniwyd a gweithredwyd pob argymhelliad arall blaenoriaeth 3.

**dd) Adolygiad Sicrwydd o'r Defnydd o Gardiau Caffael**

Nod yr adolygiad oedd ystyried y trefniadau ar gyfer cyhoeddi cardiau caffael, cymeradwyo ac awdurdodi pryniadau a'r trefniadau ar gyfer atal defnydd anawdurdodedig. Rhoddodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol gyda 4 argymhelliad blaenoriaeth 2 a 4 argymhelliad blaenoriaeth 3 beunyddiol. Dangosodd adolygiad o'r datganiadau a'r anfonebau sy'n cael eu dal bod dalwyr cardiau wedi methu â chyflwyno nifer fawr o ddatganiadau. Yn ogystal, dangosodd prawf sampl bod nifer fawr o ddatganiadau heb ynydau daliwr cerdyn a llofnodion cymeradwyo rheolwr llinell. Atgoffwyd pob daliwr cerdyn bod yn rhaid talu anfonebau am wariant dros £1000 trwy Daliadau Cyflenwyr, a rhaid adolygu trafodion a'u codio'n amserol er mwyn adnabod unrhyw drafodion twyllodrus posibl a sicrhau rheolaeth gyllidebol gywir. Cyfeiriwyd at argymhellion beunyddiol ar drafodion sy'n debygol o fod â gordaliadau. Nid oedd rheolwyr yn cytuno â'r argymhelliad hwn, ac eglurodd JM yr ideoleg y tu ôl i'r broses hon. Roedd pob argymhelliad blaenoriaeth 2 wedi'u gweithredu.

**e) Adolygiad Sicrwydd Dyledwyr**

Ystyriodd yr adolygiad godi cyfrifon dyledwyr, casglu incwm, derbynebu, cadw a bancio incwm a dderbynnir gan y sefydliad. Rhoddodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol, gyda 4 argymhelliad blaenoriaeth 2 a 2 argymhelliad blaenoriaeth 3. Derbyniodd adolygiad y llynedd sicrwydd cyfyngedig, felly roedd hi'n arwyddocaol cydnabod gwelliannau a wnaed o dan gydymffurfiaeth a phrosesau'n cael eu cyflawni'n gynt. Diweddarwyd y Gweithdrefnau Dileu a Chasglu Dyledion er mwyn adlewyrchu'r trefniadau cyfredol o dan Weithdrefnau Ariannol diwygiedig 3.5 a 3.6. Rhoddodd JM esboniad o ran yr argymhelliad lle dylid adnewyddu mastiau teleffon sy'n cynnwys cynnydd o ran y mynegai prisiau manwerthu mor fuan â phosibl er mwyn atal colled bellach o ran refeniw i'r heddlu. Roedd hyn yn sefyllfa hanesyddol gyda nifer o'r trwyddedau sydd wedi dod i ben wedi'u hadnewyddu ond heb eu llofnodi, a gafodd eu dychwelyd er waethaf ceisiadau i ddilyn y mater. Nodwyd y mater o drwyddedau sydd wedi dod i ben fel dihangfa a chynghorodd Gwasanaethau Cyfreithiol am i'r trwyddedau hyn gael eu hadnewyddu cyn 1 Ebrill 2016 er mwyn osgoi blwyddyn arall lle mae refeniw'n cael ei golli. Cyn i'r trwyddedau gael eu hadnewyddu, rhaid cyflawni archwiliad offer ar bob mast. Roedd y broses hon yn cymryd amser a holodd MM ynghylch y dyddiad terfyn o 31 Mawrth 2017 ar gyfer gweithredu. Cyfeiriodd y CA at y mater amseru cysylltiedig a'r angen ar gyfer cwblhau'r gwaith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Roedd hwn yn ddarn o waith blaengar a oedd yn debygol o gymryd hyd at ddiwedd y flwyddyn

ariannol yn 2017, a sicrhawyd yr Aelodau y byddai'r gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen yn gyflym.

**Penderfyniad: Nododd y Cyd-bwyllgor Archwilio'r Adroddiadau Archwilio Mewnol.**

## A42 Ystyried y Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2016/17

Crynhodd JM y Cynllun Blynyddol sy'n gosod yr adolygiadau arfaethedig, yr amserau arfaethedig, a'r cwmpas ar gyfer pob un o'r adolygiadau. O dan Atodiad A, tynnodd JM sylw at fân newid o ran y Cynllun a gymeradwywyd y llynedd a chyflwyno'r rhesymwaith o'r adolygiadau, y dyddiadau y cytunwyd arnynt a nifer y dyddiau a ddyrannwyd ar gyfer pob adolygiad. Mae Atodiad B yn gosod y Cynllun Strategol Treigl ar gyfer blynyddoedd i ddod.

Holodd AMSK ynghylch y tri diwrnod a nodwyd ar gyfer ymgysylltu â SAC a pha un ai a oedd tri diwrnod yn ddigon ar gyfer yr ymgysylltu gofynnol.

Mewn perthynas â chwestiwn gan MM ar system gwaith allweddol, cadarnhaodd JH fanyleb Safonau Archwilio Rhyngwladol ar y gwaith dibyniaeth ar archwilio mewnol.

Cyfeiriodd y PSA at gronfa'r Comisiynydd, a oedd ar fin derbyn archwiliad, a gofynnodd pa un ai a ellir edrych ar wasanaethau wedi'u comisiynu yn eu cyfanrwydd yn hytrach na chronfa yn unig. Cytunwyd ar hyn.

Cyfeiriodd y CHTh at Ddiogelwch Seiber TGCh a Sicrwydd Data TGCh a chwestiynodd y rhinwedd o'u hasesu ar wahân yn hytrach na gyda'i gilydd. Cyfeiriodd y PSA atynt yn cael eu rhannu oherwydd byddai'r archwiliad yn rhy hir ac anodd ar gyfer llwyth gwaith TG. Cadarnhaodd y CC bod dau sicrwydd ar wahân yn cael eu ceisio o ran sut yr oedd data'n cael ei reoli gan bartneriaid. Cadarnhaodd PG debygrwydd ac elfennau gwahanol ac awgrymodd y dylid dwyn dyddiadau'r adolygiadau'n nes. Cytunodd JM i ymgysylltu â'r archwilydd TGCh.

Mewn perthynas â'r adolygiad, sylwodd y CHTh y dylid cyfeirio pwyslais at sut y mae'r Heddlu'n rhannu gwybodaeth yn ddiogel ac effeithiol yn hytrach na sut y mae'r Heddlu'n diogelu'i wybodaeth. Cytunodd JM i adeiladu hyn i mewn i'r cwmpas.

**PENDERFYNIAD: Cytunodd yr Aelodau i'r cynnwys gan nodi'r adroddiad ar y Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2016/17.**

## A43 Derbyn diweddariad ynghylch gweithgarwch AHEM

Tynnodd y CA sylw at yr adroddiad. Crëwyd tîm Arolygu ac Adolygu AHEM yr Heddlu er mwyn ymdrin â holl weithgarwch AHEM. Roedd y tîm, dan arweiniad y Prif Arolygydd Jon Cummins, wrthi'n gweithredu strwythur llywodraethu o gwmpas Arolygiadau AHEM.

Cyfeiriodd y CA at adolygiadau yn y dyfodol o fewn Rhaglen Adolygiadau'r Heddlu ar gyfer 2016/17 a thynnodd sylw at adolygiadau mawr a gynhaliwyd; pob un yn eu statws adroddiad terfynol.

Adroddodd adolygiad PEEL ar Effeithlonrwydd farn gyffredinol lle'r oedd angen gwella. Roedd pob argymhelliad ar gyfer gwella wedi derbyn sylw a'i gwblhau. Nodwyd y byddai'r rhaglen Gwario'n Ddoeth yn mynd i'r afael ag unrhyw heriau ariannol yn y dyfodol.

Barnodd adolygiad Arweinyddiaeth PEEL arweinyddiaeth ar draws yr Heddlu. Roedd pob pwynt a godwyd o fewn y Datganiad Arweinyddiaeth wedi'i gipio a'i symud ymlaen gyda Chynllun Gweithredu sy'n eiddo i'r DBG.

Adroddodd adolygiad PEEL ar Fregusrwydd feysydd ar gyfer gwella; eto, roedd awgrymiadau wedi'u trin a'u cipio ar Gynllun Gweithredu sy'n eiddo i Dditectif Uwch-arolygydd.

Roedd y tri maes a nodwyd ar gyfer gwella mewn adroddiad ar Effeithlonrwydd PEEL yn cael eu trin a'u symud ymlaen gan Brif Uwch-arolygydd.

Nodwyd chwe maes ar gyfer gwella yn yr adroddiad ar Gyfreithlondeb PEEL; eto, roedd hyn yn cael ei drin gan Gynllun Gweithredu sy'n eiddo i'r PGC.

O ran Cynlluniau Gweithredu, holodd y Cadeirydd ynghylch amserlenni ar gyfer y Cynlluniau Gweithredu allgyfeiriol. Eglurodd y PG bod yr argymhellion o fewn Cynlluniau Gweithredu yn dod gydag amserlen argymelledig a osodwyd gan yr Heddlu.

Mewn perthynas â Chyfreithlondeb PEEL a meysydd ar gyfer gwella, cwestiynodd y Cadeirydd pa un ai a oedd y chwe argymhelliad mewn perthynas â'r Cod Moeseg. Cytunodd y CA i adolygu'r manylion, ac yn dilyn archwiliad, sefydlwyd bod tri argymhelliad yn ymwneud â moeseg/arweinyddiaeth, roedd un yn ymwneud â'r Model Penderfynu Cenedlaethol, ac roedd un yn ymwneud â'r defnydd o stopio a chwilio.

**Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ar weithgarwch AHEM.**

**A44 Derbyn Cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2016**

Tynnodd y CC sylw at feysydd allweddol o fewn y cofnodion. Rhoddodd TIAA drosolwg i'r grŵp o'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd; dogfen a oedd yn dod â risg, sicrwydd a pherfformiad at ei gilydd mewn perthynas â phob amcan strategol a oedd yn cynorthwyo â llywodraethu da. Roedd gwaith yn digwydd o ran ail-ddrafftio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dilyn derbyn canllawiau drafft newydd a materion a thrafodwyd materion a allai effeithio ar drefniadau llywodraethu corfforaethol.

O ran cyflwyniad TIAA ar y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd, gwnaeth MM sylw mewn perthynas â Bwrdd, a rhoddodd y CC eglurhad ynghylch hyn. Cwestiynodd MM waith a

oedd yn cael ei gynnal gan CIPFA SOLACE ar y datganiad Llywodraethu Blynyddol a'i berthnasoldeb yn y flwyddyn ariannol. Roedd y PSA o'r farn ei fod ar gyfer 16/17 ond cytunodd i wneud ymholiadau a chadarnhau maes o law. Dywedodd JH mai proses ydoedd yn hytrach na digwyddiad. Cyfeiriodd y CC at ddogfennau CIPFA defnyddiol eraill.

Nodwyd mân gamgymeriad teipio yn y cofnodion.

**CAM GWEITHREDU: Y PSA i wneud ymholiadau mewn perthynas â chanllawiau ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac adrodd yn ôl ar ganfyddiadau maes o law.**

**PENDERFYNIAD: Nododd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2016.**

**A45 Unrhyw fusnes arall**

Mewn ymateb i gais gan y CHTh, cytunodd y PG i ddiweddaru'r CHTh ac Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â'r Tîm Prif Swyddogion.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.55y.b.**
**Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer 21 Mehefin 2016**